

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk



Cyf: LT/AW
Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
01443 864817

15.04.2021

Annwyl Ymgynghorai

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rydyn ni'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am yr Hysbysiad Penderfynu a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r cynnig a ganlyn.

Ar 7 Ebrill 2021, cytunodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar y cynnig i ehangu **Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod** drwy adeiladu estyniad newydd a lle chwarae awyr agored i ddarparu ar gyfer 80 o ddisgyblion ychwanegol.

Ystyriodd y Cabinet y cynnig, y gwrthwynebiadau statudol a gyflwynwyd, ymateb yr Awdurdod Lleol ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021.

Nodwyd y daeth 238 o wrthwynebiadau i law. Crynhoir y pryderon a godwyd yn yr Adroddiad Gwrthwynebu ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol.

Mae'r manylion llawn a'r holl ddogfennau perthnasol ynglŷn â'r cynnig, gan gynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebu, ar gael yn:

[https://www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations/21st-Century-Schools-consultation-\(1\)?lang=cy-gb](https://www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations/21st-Century-Schools-consultation-(1)?lang=cy-gb)

Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai'r cynnig yn:

- Gwella ansawdd a safonau addysg a pha mor effeithiol y mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu ar safle Ysgol Cae'r Drindod
- Cwrdd â'r galw a ragwelir am leoedd ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth
- Gwella hygyrchedd a chyfrannu'n gadarnhaol at yr agenda cydraddoldeb i'n dysgwyr mwyaf agored i niwed

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru

O dan adran 54 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, os yw cynigion wedi'u cymeradwyo neu eu gwrthod gan awdurdod lleol, gall y cyrff canlynol atgyfeirio'r cynigion, cyn pen 28 diwrnod o ddiwrnod y penderfyniad, i Weinidogion Cymru eu hystyried:

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; a
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar 01443 864817 neu e-bostio YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk

Cofion

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili